# SENEDD A CYFLWYNO SYNIADAU

## Rhagarweiniad

### 1. Cynnal Cyfarfodydd Cyffredin

1.1 Cynhelir Cyfarfod Cyffredin o’r Senedd o leiaf ddwywaith bob semester.
1.2 Mae'r adran hon yn amodol ar gymal 28 y Cyfansoddiad.

### 2. Cadeirydd y Senedd

2.1 Yn amodol ar ddarpariaethau dilynol yr adran hon, Cadeirydd yr Undeb fydd yn cadeirio pob cyfarfod o’r Senedd.
2.2 Cynhelir etholiad ar gyfer Dirprwy Gadeirydd yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn academaidd. Rhaid i'r enwebeion fod yn aelodau â phleidlais o’r Senedd.
2.3 Yn ystod cyfarfod o’r Senedd, os yw'r:

- a. Cadeirydd yn absennol,
- b. Swydd etholedig y Cadeirydd yn wag,
- c. Cadeirydd yn dewis trosglwyddo'r rôl at ddibenion cyfranogi mewn trafodaeth, neu
- ch. Os caiff cynnig i ddiswyddo'r Cadeirydd ei basio dan adran 8;

Bydd y Dirprwy Gadeirydd yn cymryd drosodd rôl y Cadeirydd, a bydd ganddo, at ddibenion yr Is-ddeddf hon neu reoliad arall UMAber, holl rym, swyddogaethau a dyletswyddau Cadeirydd yr Undeb.

### 3. Dirprwy Gadeirydd y Senedd

3.1 Bydd Dirprwy Gadeirydd y Senedd yn cynorthwyo'r Cadeirydd mewn cynnal y Senedd yn effeithiol.
3.2 Bydd y Dirprwy Gadeirydd yn cynorthwyo â'r canlynol:

- a. Paratoi ar gyfer cyfarfodydd y Senedd,
- b. Gwirio cymhwysedd aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd y Senedd i bleidleisio ar faterion y Senedd,
- c Cynorthwyo Cadeirydd yr Undeb â'i swyddogaethau

## Syniadau a Busnes Arall y Cyfarfodydd

### 4. Cyflwyno syniadau

4.1 Caiff unrhyw Aelod neu Ymddiriedolwr sy'n Swyddog o UMAber gynnig syniad i'w drafod mewn Cyfarfod.
4.2 Gellir cyflwyno syniad ar-lein drwy Wefan UMAber.
4.3 Dylai’r syniad gynnwys y rhannau canlynol:

- a. Pa welliant, datblygiad, newid neu safbwynt gwleidyddol a gaiff ei gynnig?
- b. Beth yw'r sefyllfa bresennol?
- c. Pam mae angen eich syniad?
- ch. Sut gellid cyflawni'ch syniad?

4.4 Rhaid cyflwyno syniad o leiaf pythefnos cyn dyddiad y cyfarfod.
4.5 Ni ellir cyflwyno unrhyw syniad sydd wedi’i drafod a’i bleidleisio mewn Cyfarfod neu drwy unrhyw broses ddemocrataidd arall yr Undeb o fewn yr un flwyddyn academaidd, oni bai ei

fod yn sylweddol wahanol neu fod gwybodaeth newydd berthnasol wedi dod i'r amlwg a allai newid barn yr Aelodau yn rhesymol.
4.6 Y Cadeirydd neu'r Bwrdd Ymddiriedolwyr fydd yn penderfynu a yw syniad a gyflwynir eto yn sylweddol wahanol neu a yw gwybodaeth newydd berthnasol wedi'i darparu.

## 5. Cyflwyno gwelliannau
5.1 Caiff unrhyw Aelod UMAber gynnig gwelliant ymlaen llaw i syniad a gyflwynwyd i'w drafod mewn Cyfarfod.
5.2 Rhaid cyflwyno gwelliant ymlaen llaw ar-lein drwy Wefan UMAber.
5.3 Rhaid cyflwyno gwelliant ymlaen llaw o leiaf wythnos cyn y cyfarfod.

## 6. Syniadau: Cyffredinol
6.1 Ni all syniad fandadu na gorfodi unrhyw berson na grŵp i wneud unrhyw beth fyddai'n mynd yn groes i'r deddfau perthnasol neu fyddai'n gwrthdaro â darpariaethau'r Cyfansoddiad neu unrhyw Is-ddeddf neu Reoliad UMAber.
6.2 Mae'r Atodlen hon yn ychwanegol i gymal 73 o Gyfansoddiad UMAber, ac nid yw'n amharu arno (dan hwnnw y mae gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr rym, mewn rhai sefyllfaoedd, i ddiystyru penderfyniad neu bolisi a wnaed mewn Cyfarfod).

## 7. Syniadau Brys
7.1 Pan fydd mater brys yn codi yn ystod cyfnod rhwng y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno syniadau ac un awr cyn dechrau'r Cyfarfod, gall unrhyw Aelod o UMAber neu Swyddog sy'n Ymddiriedolwr gynnig syniad (sef Syniad Brys) sy'n gysylltiedig â'r mater hwnnw i'r Cadeirydd.
7.2 Rhaid i'r sawl sy'n cynnig Syniad Brys ddarparu datganiad ysgrifenedig sy'n cyfiawnhau natur brys y syniad i'r Cadeirydd.
7.3 Bydd derbyn syniad fel Syniad Brys ar ddisgresiwn y Cadeirydd ac ni fydd yn atal hynny heb reswm teilwng.
7.4 Pan dderbynnir Syniad Brys, bydd y Cadeirydd yn cymryd y cyfle i gyflwyno'r syniad yn ystod ei sylwadau agoriadol gan ganiatáu cyfnod cyfyngedig o amser i gyflwyno unrhyw welliannau.
7.5 Os nad yw'n ymarferol cyfieithu Syniad Brys ac unrhyw welliannau i'r Gymraeg oherwydd prinder amser, gellir ei ddosbarthu'n uniaith Saesneg.
7.6 Nid oes modd i Syniad Brys gael yr effaith o newid Cyfansoddiad UMAber.

## 8. Cynigion Gweithdrefnol: Cyffredinol
8.1 Caiff Aelod o UMAber gyflwyno Cynnig Gweithdrefnol yn ystod cyfarfod.
8.2 Ond nid yw'r Cadeirydd dan orfodaeth i ganiatáu dadl ar gynnig gweithdrefnol os yw'n credu y byddai gwneud hynny'n golygu camddefnydd o'r cyfarfod neu y byddai'n bygwth buddiannau'r lleiafrif yn sylweddol ac anghymesur.
8.3 Disgrifir y Cynigion Gweithdrefnol yng ngweddill yr adran, a phan gaiff mwy nag un Cynnig Gweithdrefnol ei gyflwyno ar y tro, ymdrinnir â hwy yn y drefn ganlynol.
8.4 "Nid oes gan y Cyfarfod hyder yn y Cadeirydd". Os caiff ei basio, rhaid i'r Cadeirydd roi'r gorau i'w rôl a chaiff ei le ei lenwi yn unol ag adran 2.2. Daw hyn i rym am weddill y Cyfarfod y cafodd ei basio ynddo yn unig.
8.5 "Bydd y Dirprwy Gadeirydd yn cymryd drosodd y Gadair". Os caiff ei basio, rhaid i'r Cadeirydd ildio'r gadair a bydd y Dirprwy Gadeirydd yn cymryd ei le. Bydd hyn yn effeithio ar y syniad sydd dan ystyriaeth yn unig, ond gellir ei gyflwyno fwy nag unwaith os oes angen.
8.6 "Dylid allgau [person] rhag gweddill y Cyfarfod". Gellid ond cynnig y syniad hwn pe bai person yn ymddwyn yn amhriodol, yn sarhaus neu'n amharu'n gyson ar fusnes y Cyfarfod.

8.7 “Dylid cynnal y bleidlais nawr”. Os caiff ei basio, bydd y ddadl ar y syniad dan ystyriaeth (neu os oes gwelliant dan ystyriaeth, y gwelliant) yn gorffen a chynhelir pleidlais ar unwaith.
8.8 “Dylid ailgyfri'r bleidlais”. Os caiff ei basio, caiff y bleidlais a gynhaliwyd ddiwethaf ei chynnal eto.
8.9 “Dylid newid Trefn y Busnes fel a ganlyn: […]”. Os caiff ei basio, caiff Trefn y Busnes ei newid yn unol â hynny. Ond ni all Syniad Gweithdrefnol a basiwyd yn unol â'r isadran hon ddileu o Drefn y Busnes y pethau y mae'n rhaid eu gwneud yn rhinwedd adran 11.2.
8.10 “Dylid negyddu penderfyniad y Cadeirydd”. Caiff y syniad hwn ond ei gynnig ynghylch penderfyniad penodol a wnaed gan y Cadeirydd wrth weithredu grym a roddwyd iddo gan yr Isadran hon. Os caiff ei basio, caiff ei benderfyniad ei negyddu ac ni chaiff unrhyw effaith.

## 9. Cofnodion y Cyfarfod blaenorol

9.1 Caiff cofnodion y Cyfarfod blaenorol eu cyflwyno ym mhob Cyfarfod, a chânt eu cynnig gan y Llywydd. Gellir gwneud gwelliannau, os oes angen.

# Y Drefn mewn Cyfarfodydd

## 10. Cworwm

10.1 Y cworwm ar gyfer holl gyfarfodydd y Senedd fydd hanner cyfanswm yr aelodaeth sydd â rôl benodol (ac eithrio rolau gwag) ac un.
10.2 Os na chyrhaeddir y cworwm o fewn 20 munud o'r amser cychwyn a hysbyswyd, caiff y cyfarfod ei ohirio tan ddyddiad y cyfarfod nesaf.
10.3 Ni fydd modd pleidleisio na thrafod unrhyw fusnes os na fydd cworwm. Bydd unrhyw gyfarfod sy'n honni ystyried busnes ar sail ddangosol fod yn ddi-sail.
10.4 Os, yn ystod cyfarfod, bydd cyhoeddiad nad oedd digon o aelodau yn bresennol yn ystod y bleidlais, caiff y cyfarfod ei ystyried yn fyr o’r cworwm a daw i ben ar unwaith. Bydd statws ‘heb ei drafod’ i’r holl fusnes a ystyrir ers y bleidlais flaenorol â chworwm, ac ni fydd eu pleidleisiau'n ddilys.
10.5 Caiff unrhyw fater na chaiff ei drafod mewn cyfarfod o'r Senedd ei osod ar agenda cyfarfod nesaf y Senedd.

## 11. Dadl: cyffredinol

11.1 Bydd gan y Cadeirydd rym cyffredinol i reoli dadleuon, yn amodol ar ddarpariaethau dilynol yr Atodlen hon, ond rhaid gwneud hynny mewn modd sy'n caniatáu cymaint o safbwyntiau gwahanol ag sy'n ymarferol resymol.
11.2 Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod pob sylw a wneir yn berthnasol i'r syniad (neu welliant) a gaiff ei drafod.
11.3 Ni chaiff Cadeirydd yr Undeb gymryd rhan mewn trafodaeth na phleidleisio ar unrhyw fater (yn amodol ar adran 2 ac 8).

## 12. Trefn y Busnes

12.1 Bydd Trefn y Busnes ym mhob Cyfarfod fel a ganlyn:

a. Sylwadau agoriadol y Cadeirydd
*Cyflwyno Syniadau Brys - cyfle i gyflwyno gwelliannau
b. Ymddiheuriadau am absenoldeb
c. Cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod blaenorol
ch. Materion yn codi o'r cofnodion
d. Adroddiadau gan Ymddiriedolwyr sy'n Swyddogion a Chymeradwyo Goleuadau Traffig Ymddiriedolwyr sy'n Swyddogion
dd. Syniadau
Syniadau Brys

e. Unrhyw fusnes arall
f. Dyddiad y Cyfarfod nesaf
* Os yw'n berthnasol

12.2 Pan fo'r Cyfarfod yn Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol, bydd y canlynol yn digwydd cyn adroddiadau'r Ymddiriedolwyr sy'n Swyddogion:

a. Derbyn adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar weithgareddau UMAber ers y CCB blaenorol,
b. Derbyn cyfrifon UMAber ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol,
c. Penodi'r archwilwyr,
ch. Cymeradwyo'r rhestr o ymaelodaethau UMAber, ac
d. Agor cwestiynau i'r Ymddiriedolwyr gan yr Aelodau.

12.3 Fel rhan o Drefn y Busnes, bydd grym gan y Cadeirydd i osod terfyn ar nifer y cwestiynau y gellir eu gofyn ar syniad fel y gwêl yn addas, ond ni fydd unrhyw gyfyngiad o'r fath yn atal llai na thri chwestiwn.

12.4 Bydd pŵer gan y Cadeirydd i newid neu atal Trefn y Busnes lle gwêl yn dda gwneud hynny, ond bydd hyn yn amodol ar unrhyw newid a wnaed yn sgil Syniad Gweithdrefnol i'r diben hwnnw a basiwyd yn unol ag adran 9.9.

## 13. Y Ddadl: trefn y drafodaeth

13.1 Caiff pob syniad (ac eithrio syniad gweithdrefnol) ei drafod fel a ganlyn.

13.2 Rhaid i'r sawl a gynigiodd y syniad fynychu'r cyfarfod, lle bynnag fo hynny'n bosib, a siarad ar y syniad hwnnw. Gall cynigydd syniad enwebu rhywun arall i siarad yn eu lle. Os nad yw'r cynigydd yn bresennol, ac nad oes enwebai wedi cael ei awgrymu, ni chaiff y syniad ei drafod.

13.3 Bydd y drefn ar gyfer areithiau yn y drafodaeth fel a ganlyn:

a. Araith i gyflwyno'r syniad, heb fod yn hwy na thair munud; wedyn bydd y Cadeirydd yn cynnig cyfle i holi cwestiynau i'r cynigydd cyn symud ymlaen i'r ddadl.
b. Caniateir cyfnod o drafodaeth er mwyn caniatáu i'r rhai sy'n bresennol fynd ati, mewn grwpiau, i rannu barn ac ystyried y syniad a symud ymlaen i'r ddadl.
c. Bydd dadl agored yn digwydd gyda'r siaradwyr a detholwyd ar ddisgresiwn y Cadeirydd, cyn belled â bod cydbwysedd yn ei gynnal rhwng y siaradwyr o blaid a'r siaradwyr yn erbyn yr eitem. Hefyd, fel bod modd i gymaint o bobl â phosibl sydd am siarad gael gwneud hynny o fewn y cyfnod sydd ar gael (ond nid oes angen newid areithiau o blaid ac yn erbyn eitem bob yn ail).
ch. Araith yn crynhoi'r syniad, heb fod yn para mwy na dwy funud (gall cynigydd y syniad ildio'r araith hon).

13.4 Ar ôl araith grynhoi'r syniad, caiff pleidlais ar y syniad hwnnw ei chynnal ar unwaith.

## 14. Gwelliannau: Trefn y Ddadl

14.1 Yn dilyn araith yn cyflwyno'r syniad, caiff unrhyw welliannau eu trafod.

14.2 Caiff gwelliannau eu trafod yn y drefn y cyflwynwyd hwy.

14.3 Rhaid i'r sawl a gynigiodd y gwelliant fynychu'r cyfarfod, lle bynnag fo hynny'n bosib, a siarad ar y gwelliant hwnnw. Gall cynigydd gwelliant enwebu rhywun arall i siarad yn eu lle. Os nad yw'r cynigydd yn bresennol, ac nad oes enwebai wedi cael ei awgrymu, ni chaiff y gwelliant ei drafod.

14.4 Bydd trefn yr areithiau ar welliant fel a ganlyn:

a. Araith sy'n cynnig y gwelliant - ni fydd hon yn para mwy na thair munud, ac ar ôl hynny caiff unrhyw Aelod o UMAber neu Swyddog sy'n Ymddiriedolwr ofyn cwestiynau,
b. Cynhelir trafodaeth agored gyda siaradwyr wedi'u dethol ar ddisgresiwn y Cadeirydd, cyn belled â bod cydbwysedd cyfartal yn cael ei gynnal rhwng siaradwyr o blaid ac yn erbyn yr eitem sydd dan sylw, a bod cynifer o bobl â phosib sydd eisiau

siarad yn gwneud hynny o fewn yr amser sydd ar gael (ond does dim rhaid cynnal areithiau am yn ail).

c. Araith yn crynhoi'r gwelliant, heb fod yn para mwy na dwy funud (gall cynigydd y gwelliant ildio'r araith hon).

14.5 Ar ôl trafod pob gwelliant, bydd y ddadl ar y syniad yn parhau wedi'r ymyriad, os yw wedi'i wella neu beidio.

## 15. Dadl: Syniadau Gweithdrefnol

15.1 Caiff pob syniad gweithdrefnol ei drafod fel a ganlyn.

15.2 Bydd y drefn ar gyfer areithiau yn y drafodaeth fel a ganlyn:

a. Araith sy'n cynnig y syniad - ni fydd hon yn para mwy nag un funud,

b. Araith sy'n gwrthwynebu'r syniad - ni fydd hon yn para mwy nag un funud.

15.3 Ar ôl araith yn gwrthwynebu'r syniad, caiff pleidlais ar y syniad hwnnw ei chynnal ar unwaith.

15.4 Os caiff syniad gweithdrefnol ei basio, bydd y Cyfarfod yn gweithredu fel sy'n briodol, cyn dychwelyd at y pwynt perthnasol yn nhrefn y busnes (agenda).

## 16. Pwyntiau y gellir eu Codi

16.1 Caiff unrhyw Aelod neu Ymddiriedolwr o UMAber godi Pwynt i'r Cadeirydd unrhyw bryd, fel a ganlyn:

a. Mater o Drefn. Gellir ei godi os credir bod y deddfau perthnasol wedi cael eu torri. Bydd y Cadeirydd yn penderfynu ar y Mater o Drefn ac yn rhoi gwybod i'r siaradwr am ei benderfyniad.

b. Ymholiadau. Ar unrhyw bryd, os nad yw aelod yn deall rhan benodol o araith neu os nad yw'n deall dehongliad y Cadeirydd o'r rheolau, caiff wneud Ymholiad. Mae hyn yn rhoi gwybod i'r siaradwr fod angen iddo fod yn fwy clir yn ei esboniad. Os oes angen, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r aelod egluro'r hyn nad yw'n ei ddeall.

16.2 Ni fydd gorfodaeth ar unrhyw berson i ddelio â, neu ymateb i Bwynt os yw'r Cadeirydd yn credu y buasai gwneud hynny'n golygu camddefnydd o'r Cyfarfod neu y byddai'n bygwth buddiannau'r lleiafrif yn sylweddol ac anghyfartal.

## 17. Pleidleisiau

17.1 Cynhelir pob pleidlais yn ystod y cyfarfod ar ffurf electronig lle bo hynny'n bosibl, ac eithrio Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, lle byddant yn cael eu cynnal drwy godi dwylo.

17.2 Y dewisiadau ar gyfer pleidleisio yw "o blaid", "yn erbyn" neu "ymatal".

17.3 Mewn achosion lle mae rôl yn cael ei rhannu gan ddau unigolyn, dim ond un bleidlais fydd yn cael ei chyfrif, ac mae'n rhaid i'r ddau unigolyn gytuno ar y bleidlais honno. Lle na all unigolion gytuno, rhaid iddynt ymatal.

## 18. Canlyniadau'r Bleidlais

18.1 Caiff canlyniad pob pleidlais ei gyhoeddi ar ffurf glywadwy a'i ddangos ar ffurf weledol cyn gynted ag sy'n ymarferol resymol wedi'r bleidlais.

18.2 Mae syniad yn pasio os caiff mwyafrif y pleidleisiau eu bwrw o blaid y syniad hwnnw.

18.3 Nid yw syniad yn pasio os yw'r bleidlais yn gyfartal.

## 19. Cyfyngiadau ar Syniadau

19.1 Ni ddaw unrhyw syniad a fyddai'n cael yr effaith o newid, diddymu neu adfer unrhyw ran o'r Cyfansoddiad a newidiwyd, a diddymwyd neu a adferwyd yn flaenorol yn yr un flwyddyn academaidd i rym, oni chaiff ei basio gan fwyafrif o ddwy-ran-o-dair.

19.2 Ni chaiff syniad yr effaith o newid, diddymu neu adfer unrhyw ran o'r Cyfansoddiad, Is-ddeddfau neu Reoliadau a ychwanegwyd, a newidiwyd, a adferwyd neu a ddiddymwyd yn flaenorol drwy refferendwm, oni chaiff ei basio gan fwyafrif o ddwy-ran-o-dair.
19.3 Ni chaiff syniad yr effaith o newid, adfer neu ddiddymu unrhyw ran o bolisi'r Undeb a basiwyd, a wellwyd, a adferwyd neu a ddiddymwyd yn flaenorol drwy refferendwm, oni chaiff ei basio gan fwyafrif o ddwy-ran-o-dair.

# Polisi

## 20. Dogfen Bolisi

20.1 Bydd UMAber yn cadw Dogfen Bolisi.
20.2 Diben y Ddogfen Bolisi yw cofnodi Syniadau'r Undeb mewn un ddogfen er mwyn cynnal eglurdeb ac osgoi dryswch ynglŷn â pholisi'r Undeb.
20.3 Bydd y Ddogfen Bolisi'n cynnwys pob Syniad UMAber, ynghyd â'r dyddiad y pasiwyd pob un ohonynt. Lle bo hynny'n berthnasol, dylai gynnwys y dyddiad maent yn darfod.
20.4 Caiff y Ddogfen Bolisi ei hadnewyddu, pan fo angen, gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl pob Cyfarfod, ond ym mhob achos o fewn pum diwrnod gwaith.
20.5 Rhaid dwyn y Ddogfen Bolisi ger bron y Senedd yn flynyddol er mwyn amlinellu i aelodau unrhyw bolisïau sydd i ddarfod yn ystod y deuddeg mis nesaf. Cyfrifoldeb aelodau unigol yw gwella neu adnewyddu polisïau fel yr amlinellir yn adran 4.

## 21. Darfod Syniadau

21.1 Bydd pob syniad a gytunir yn parhau i fod yn bolisi'r Undeb am dair blynedd galendr.

## 22. Dwyieithrwydd

22.1 Bydd y Cadeirydd yn cymryd pob cam ymarferol i sicrhau bod offer cyfieithu'n cael ei ddarparu ar gyfer pawb sy'n mynychu'r cyfarfod.
22.2 Lle caiff offer cyfieithu ei ddarparu ar gyfer pawb sy'n mynychu'r cyfarfod, mae gan bawb sy'n siarad yr hawl i wneud hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg, a chaiff cyfieithiad ei ddarparu fel sy'n briodol.
22.3 Lle na chaiff offer cyfieithu ei ddarparu ar gyfer pawb sy'n mynychu'r cyfarfod, rhaid i bawb sy'n siarad wneud hynny'n Saesneg.

## 23. Dehongliad

23.1 Yn yr Atodlen hon:
Ystyr "Aelod" fydd "Aelod o UMAber" dan gymal 15 o'r Cyfansoddiad,
"Cadeirydd" yw'r sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod, yn unol â darpariaethau adran 2,
Mae'r term "Cyfarfod" yn cynnwys unrhyw Gyfarfod o'r Senedd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol,
Golyga "deddfau perthnasol" gyfraith Lloegr a Chymru, Siartr y Brifysgol ac unrhyw statud, ordinhad, rheol sefydlog, rheol neu reoliad a wneir danynt, ynghyd â Chyfansoddiad, Is-ddeddfau a Rheoliadau UMAber.

## 24. Hygyrchedd

24.1 Ar ôl un awr o'r Senedd, bydd egwyl fer o 10 munud cyn i'r cyfarfod ail-ddechrau. Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi hyn gynted y bydd y busnes sy'n cael ei drafod wedi ei gwblhau.
24.2 Ni fydd unrhyw gyfarfod o'r Senedd yn para am fwy na dwy awr. Os na fydd pob busnes wedi cael ei gwblhau erbyn hynny, caiff unrhyw fusnes sy'n weddill ei ohirio tan gyfarfod nesaf y Senedd.